## COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU**

**SUBJECT:** **PWLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU - DYDD IAU, 6 IONAWR 2022 DYDD IAU, 6 IONAWR 2022**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: D. HANCOCK (CADEIRYDD)

Councillors W. Hodgins (Is-gadeirydd)
D. Bevan
G. L. Davies
M. Day
J. Hill
C. Meredith
K. Pritchard
B. Thomas
G. Thomas
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| |
|---|
| Steve Smith (Swyddog) |
| Mark Hopkins (Swyddog) |
| Steph Hopkins (Swyddog) |
| Sally-Ann Evans (Swyddog) |
| Joanne White (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb gan:-<br><br>Cynghorydd K. Rowson<br>Cynghorydd T. Smith<br>Cynghorydd D. Wilkshire<br><br>**<u>DAU FUNUD O DAWELWCH</u>**<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd am gynnal dau funud o dawelwch fel arwydd o barch at ddiweddar wraig y Cynghorydd David Wilkshire a fu farw cyn y Nadolig. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Codwyd y datganiadau dilynol o fuddiant:<br><br><u>Wayne Hodgins (cysylltiedig â gwaith)</u><br>Eitem Rhif 4 - C/2021/0317 - 44 Stryd Beaufort, Brynmawr, Glynebwy NP23 4AG<br>Newid defnydd arfaethedig ar uned siop A1 i A2.<br><br><u>Cynghorydd M. Day (Aelod Bwrdd Tai Calon)</u><br><u>Cynghorydd C. Meredith (Aelod Ward)</u><br><br>Eitem Rhif 4 - C/2021/0179 – Cwrt Glanyrafon a thir cyfagos. Safle blaenorol tai gwarchod yn Heol Rhandir, Glynebwy, NP23 5NS – Adeiladu 15 annedd breswyl gyda ffordd newydd, lleoedd parcio, ardaloedd tirlunio caled a meddal. | |
| **No. 4** | **<u>ADRODDIAD CEISIADAU CYNLLUNIO</u>**<br><br><u>C/2021/0306</u><br><u>74 Stryd y Brenin, Brynmawr, NP23 4RG</u><br><u>Newid defnydd swyddfeydd llawr daear a llety byw ar y llawr cyntaf a'r ail lawr i un annedd gyda newidiadau allanol cysylltiedig</u><br><br>Dywedodd y Swyddog Cynllunio fod y cais yn gofyn am newid defnydd adeilad o swyddfeydd ar y llawr daear gyda llety byw ar y llawr cyntaf a'r ail lawr i fod yn un annedd. Mae'r safle yn cynnwys adeilad canol teras, dau lawr gyda llety o fewn to ar oleddf drwy 2 ddormer to goleddf. Mae'r safle o fewn anheddiad Brynmawr. Mae llawr daear yr adeilad ar lefel uwch na lefel y ffordd a cheir | |

mynediad iddo drwy risiau i'r drychiad blaen. Mae cefn y safle yn agos at eiddo sydd hefyd yn yr un perchnogaeth â'r safle y gwneir y cais amdano. Nododd y Swyddog Cynllunio ymhellach fod yr annedd arfaethedig yn darparu lolfa a chegin/ystafell fwyta ar lefel llawr daear, 3 ystafell wely ac ystafell ymolchi ar y llawr cyntaf gydag ystafell wely ar yr ail lawr. Cynigir cynyddu maint y ffenestri dormer presennol a'u gorffen gyda chladin cyfansawdd.

Cyfeiriodd y Swyddog Cynllunio yr Aelodau at y ddelweddau a diagramau a fanylir yn yr adroddiad ac yn rhoi trosolwg o'r cynllun llawr a gynigir a'r drychiad a gynigir.

Nododd y Swyddog Cynllunio na chodwyd unrhyw wrthwynebiadau ac mai'r rheswm y cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor oedd bod y cynnig yn groes i Bolisi DM5 sy'n dweud na chaniateid newid defnydd yr unedau ar y llawr daear i ddefnydd preswyl yng nghanol y dref. Mae'r rhan hon o Stryd y Brenin yn bennaf breswyl ac mae nodweddion yr adeilad yn fwy preswyl na masnachol. Mae'r astudiaeth Manwerthu a Hamdden a gyhoeddwyd yn ddiweddar a baratowyd fel sylfaen tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn argymell tynnu'r adeilad o ffin canol y dref. Mae'r Swyddog Cynllunio yn derbyn yr argymhelliad ac yn ystyried y gallai hyn fod yn ystyriaeth sylweddol wrth benderfynu ar y cais cynllunio.

Aeth y Swyddog Cynllunio ymlaen drwy ddweud na fyddai'r datblygiad yn effeithio ar adeiladau cyfagos na'n cael effaith niweidiol ar olwg stryd. Ychwanegwyd er nad oes darpariaethau parcio bod y safle mewn lleoliad cynaliadwy. Esboniodd y Swyddog Cynllunio, er fod y cynnig yn groes i Bolisi DM5, bod rhesymau gyda chyfiawnhad drostynt dros gymeradwyo'r cais yn groes i'r polisi. Ym mhob cyswllt arall mae'r cynnig yn cydymffurfio gyda'r polisïau cynllunio perthnasol.

Croesawodd yr Aelodau Ward lleol y datblygiad a theimlai y byddai'n gwella llawer ar yr adeilad gan iddo fod yn wag am flynyddoedd lawer.

PENDERFYNWYD **RHOI** caniatâd cynllunio, gyda'r amodau a fanylir yn yr adroddiad.

C/2021/0317
44 Stryd Beaufort, Brynmawr, Glynebwy NP23 4AG
Newid defnydd arfaethedig uned siop A1 i A2

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu fod y Pwyllgor yn gofyn am geisio newid defnydd yr adeilad o ddefnydd A1 i ddefnydd A2. Mae'r safle o fewn anheddiad Brynmawr ac o fewn canol y dref a'r brif ardal manwerthu. Nododd yr Arweinydd Tîm mai'r defnydd hysbys diweddaraf yr adeilad oedd fferyllfa ar lefel llawr daear a phreswyl ar y llawr cyntaf, fodd bynnag mae'r llawr daear a'r llawr cyntaf yn wag ar hyn o bryd.<br><br>Ychwanegodd yr Arweinydd Tîm na fyddai unrhyw newidiadau allanol ac mai dim ond i gynllun y llawr daear y byddai newidiadau. Pe bwriedir unrhyw newidiadau allanol, byddai angen i'r ymgeisydd wneud cais i'r Adran Cynllunio.<br><br>Dywedwyd ymhellach na chodwyd unrhyw wrthwynebiadau yng nghyswllt y cais a bod y rheswm am gyflwyno'r cais i'r Pwyllgor yn debyg i'r cais blaenorol ac yn groes i bolisi DM5.<br><br>Roedd yr adeilad wedi bod yn wag am nifer o flynyddoedd, felly teimlai'r Arweinydd Tîm yr ystyriwyd fod colli defnydd A1 a newid i ddefnydd A2 yn rheswm gyda chyfiawnhad drosto i gymeradwyo'r cais yn groes i'r polisi. Ym mhob cyswllt arall mae'r cynnig yn cydymffurfio gyda pholisïau cynllunio perthnasol.<br><br>PENDERFYNWYD **RHOI** caniatâd cynllunio, gyda'r amodau a fanylir yn yr adroddiad. | |
| **No. 5** | **CAIS: C/2021/0179 SAFLE: CWRT GLANYRAFON A THIR CYFAGOS, HEOL RHANDIR, GLYNEBWY. CYNNIG: ADEILADU 15 ANNEDD GYDA FFORDD NEWYDD, LLEOEDD PARCIO, GERDDI, ARDALOEDD TIRLUN CALED A MEDDAL.**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau.<br><br>Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau y cais a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 4 Tachwedd 2021 ac ymweliad safle ar 24 Tachwedd 2021. Cafodd y safle ei phegio allan yn glir i'r Pwyllgor weld yr ardal y cynigid ei datblygu, fodd bynnag penderfyniad y Pwyllgor o hyd oedd y dylid gwrthod y cais oherwydd colli gofod gwyrdd agored.<br><br>Dywedwyd y cafodd gohebiaeth hwyr a dderbyniwyd yng nghyswllt y cais ei chylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor. | |

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth yr Aelodau at yr opsiwn a ffafrir sy’n dangos y rheswm dros wrthod yn unol â’r trafodaethau gan fod cyfarfodydd Pwyllgor a nodir uchod a dywedodd mai mater i Aelodau oedd penderfynu os mai’r geiriad a fanylir yn yr adroddiad oedd rheswm yr Aelodau dros wrthod.

Dywedodd y Cadeirydd na fu’n bresennol yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor lle trafodwyd yr eitem hon. Teimlai’r Cadeirydd y byddai’n briodol i gyflwyno’r cyfarfod i ofal yr Is-gadeirydd a dywedodd y Cadeirydd na fyddai’n cymryd rhan yn y bleidlais.

Cymerodd yr Is-gadeirydd ofal y cyfarfod ar y pwynt hwn a gwahoddodd sylwadau/cwestiynau gan Aelodau.

Teimlai Aelod fod y sylwadau a amlinellir yn 3.2 yr adroddiad yn rhoi adlewyrchiad cywir o sylwadau Aelodau a dywedodd ei fod yn parhau yn erbyn y datblygiad.

Cytunodd Aelod gyda’r sylwadau a godwyd a theimlai fod gofodau agored/gwyrdd wedi dod yn lle pwysig ym mywydau llawer o breswylwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Bu newidiadau mawr i bobl ar draws y wlad gyda chyfnodau o ynysu, gweithio gartref oedd i gyd wedi codi problemau iechyd meddwl ac unigrwydd i lawer o bobl. Roedd llawer o breswylwyr o’r ardal hon wedi dweud pa mor werthfawr fu’r gofod gwyrdd hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac y byddai’n parhau i fod felly gan eu bod wedi mwynhau mynd am dro yn yr ardal gydag anifeiliaid anwes neu gwrdd â phobl. Felly teimlai’r Aelod bod cadw’r tir yn bwysig i’r bobl sy’n defnyddio’r gofod agored hwn.

Ychwanegodd yr Aelod fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn 2015. Mae’r Ddeddf yn diffinio’r egwyddor datblygu cynaliadwy fel bod yn gweithredu mewn dull sy’n anelu i sicrhau anghenion y presennol heb effeithio ar angen y dyfodol. Aeth yr Aelod ymlaen drwy ddweud fod Swyddfa Archwilio Cymru fod Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn galw am well mynediad i a gofodau agored i gymunedau, busnesau ac ymwelwyr. Mae angen deall yn well iechyd corfforol a meddwl presennol pobl yn ein cymunedau ynghyd â lefelau ynysigrwydd cymdeithasol. Dylid cynnal yr ardaloedd hyn i sicrhau’r cyflawni amcanion hyn ac i wneud gwahaniaeth cadarnhaol ar fywydau pobl.

Dywedodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod yr amcanion llesiant yn cydnabod gwerthoedd gofodau agored ar gyfer lles meddwl a chorfforol pobl. Felly teimlai'r Aelod fod yn rhaid diogelu'r gofod gwyrdd hwn ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Teimlai'r Aelod ein bod yn awr yn sylweddoli ddwy flynedd yn ddiweddarach pa mor werthfawr yw'r tir hwn ac yn credu y byddai llawer mwy o newidiadau dros y 100 mlynedd nesaf. Ategodd yr Aelod bwysigrwydd cadw'r tir hwn ar gyfer ein cymunedau yn y dyfodol.

Dilynodd trafodaeth yng nghyswllt y cais a dywedodd yr Aelodau dilynol y byddent yn ymatal rhag pleidleisio gan eu bod yn parhau i fod o blaid y datblygiad:-

Cynghorydd J. Hill
Cynghorydd W. Hodgins
Cynghorydd K. Pritchard
Cynghorydd C. Meredith
Cynghorydd G. Thomas

Teimlai Aelod fod safleoedd tir llwyd arall y gellid eu datblygu ac felly ni allai gefnogi'r datblygiad. Gyda'r Aelod arall gyda'r sylwadau hyn a chynigiwyd y sylwadau a'r rheswm dros wrthodiad (Opsiwn 1).

Mewn pleidlais, pleidleisiodd 1 Aelod yn erbyn Opsiwn 1 a 5 Aelod o blaid Opsiwn 1. Ni wnaeth y Cadeirydd gymryd rhan yn y bleidlais ac ymatalodd y Cynghorwyr W. Hodgins, M. Day, J. Hill, C. Meredith a K. Pritchard rhag pleidleisio. Felly,

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyodd yr Aelodau y rheswm dilynol am wrthod sy'n adlewyrchu'r consyrn a fynegwyd yn y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2021 (Opsiwn 1).

- Mae cyfran sylweddol o safle'r cais yn ymestyn tu hwnt i faint safle tai Glanyrafon. Nid oedd y rhan honno o'r safle yn dir llwyd ond mae'n rhoi ardal amwynder gwerthfawr ar gyfer y gymuned o amgylch. Mae polisi DM13 y Cynllun Datblygu Lleol Blaenau Gwent a fabwysiadwyd yn anelu i warchod gofod agored rhag datblygiad amhriodol.

  Mae'n nodi'r profion i gael eu cyflawni pe lleolir y datblygiad ar ofod agored. Roedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y

| | | |
|---|---|---|
| | cynnig hwn yng ngoleuni'r profion hyn. Ystyriwyd fod gan y safle amwynder cynhenid a gwerth hamdden ac nad oes gwarged o ardaloedd mor fath yn yr ardal. Gan nad oedd y cais hwn yn anelu i lenwi'r golled hwn ac nid oedd y datblygiad yn gwella'r ardal, mae'r datblygiad yn groes i bolisi DM13. Nid yw budd cydnabyddedig tai fforddiadwy yn gorbwyso'r effaith negyddol. | |
| **No. 6** | **<u>APELIADAU, YMGYNGHORIADAU A DIWEDDARIAD DNS, IONAWR 2022</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Stadau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 7** | **<u>RHESTR CEISIADAU A BENDERFYNWYD DAN BWERAU DIRPRWYEDIG RHWNG 9 TACHWEDD 2021 A 15 RHAGFYR 2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Cymorth Busnes.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 8** | **<u>GWYBODAETH PERFFORMIAD CHWARTEROL CHWARTER 4: IONAWR I MAWRTH 2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Stadau.<br><br>Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu a Stadau yr Aelodau at yr adroddiad a dywedodd ei fod yn adroddiad rheolaidd sy'n rhaid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn chwarterol. Mae'r wybodaeth perfformiad yn cyfeirio at chwarter olaf y flwyddyn ariannol ddiwethaf rhwng Ionawr a Mawrth 2021 ac a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar 5 Hydref 2021.<br><br>Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth drosolwg o'r perfformiad cyfredol fel y'i nodir yn yr adroddiad. Nododd y Rheolwr Gwasanaeth y 81 diwrnod ar gyfartaledd a gymerir rhag cofrestru i wneud penderfyniad ar gyfer pob cais cynllunio a dywedodd fod y Tîm yn awr yn ôl i gapasiti llawn ac y byddid yn edrych ar y | |

| | | |
|---|---|---|
| | deilliant hwn a'i drafod.<br><br>Teimlai'r Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio fod y Rheolwr Gwasanaeth a'i Dîm wedi gwneud gwaith rhagorol i gynnal y perfformiad da yn ystod y cyfnod heriol hwn a gyda phrinder staff.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad hwn a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 9** | **<u>GOHIRIO TAN15 NEWYDD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Tîm Rheoli Datblygu y cyflwynwyd yr adroddiad i hysbysu Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud y penderfyniad y gohirid y dyddiad y daw'r TAN 15 a'r Map Llifogydd newydd i rym. Ychwanegodd y Rheolwr Tîm y byddai'r TAN 15 presennol a gyhoeddwyd yn 2004 ynghyd â'r Map Cyngor Datblygu yn parhau fel fframwaith ar gyfer asesu risg llifogydd nes mae TAN 15 a'r Map Llifogydd newydd yn ei le.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Tîm ymhellach am yr adroddiad a rhoddodd drosolwg manwl o'r cefndir a'r cyd-destun er gwybodaeth.<br><br>Gofynnodd Aelod os oes gan Flaenau Gwent berson cymwys i weithredu proses TAN gan y bu'n rhaid gofyn am wasanaethau o Gaerffili yn y misoedd diweddar. Dywedodd y Rheolwr Tîm fod Blaenau Gwent wedi defnyddio Caerffili ar gyfer ceisiadau gyda phroblemau draeniad dŵr wyneb gan fod Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn ei le. Yn nhermau canlyniad llifogydd, dywedodd y Rheolwr Tîm fod angen gwneud y gwaith fel sydd angen gan Lywodraeth Cymru wedi ei ymestyn tu hwnt i ddim ond swyddogion draeniad. Roedd nifer o adrannau ar draws yr Awdurdod wedi cymryd rhan a byddai trafodaethau gydag awdurdodau eraill.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 10** | **<u>ACHOSION GORFODAETH A GAFODD EU CAU RHWNG 21 HYDREF 2021 I 9 RHAGFYR 2021</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol | |

| | | |
|---|---|---|
| | ynghylch y prawf cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal y budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad fod yn eithriedig.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Rheoli Datblygu.<br><br>Rhoddodd y Swyddog Gorfodaeth ddiweddariad ar faterion sy'n parhau a dymunai Aelodau ddiolch i'r swyddog am waith a gynhaliwyd yng nghyswllt y mater hwn.<br><br>***PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn neilltuol a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo.*** | |